Rhaglen tystiolaeth marchnad lafur

# CYNGHORION DA ar gyfer sefydlu llywodraethiant effeithlon mewn cynlluniau gwaith ac iechyd

## Ar gyfer pwy mae'r canllawiau yma?

- **Gwneuthurwyr penderfyniadau**
- **Staff polisi**



## Pryd ddylwn i ddefnyddio'r canllawiau yma?

**Cam dylunio a chyflenwi parhaus.**

*Mae llywodraethiant effeithlon yn cymryd amser, gwaith meddwl ac adnoddau wrth gynllunio rhaglen a'r camau darparu cynnar. Mae angen teilwra yn seiliedig ar strwythurau llywodraethiant perthnasol lleol a chenedlaethol. Mae'n esblygu dros gyfnod wrth i systemau aeddfedu. Bydd sut y bydd hyn yn esblygu yn amrywio yn seiliedig ar gyfnod dylunio a darparu rhaglen.*

Mae tystiolaeth o Greater Manchester Working Well yn rhoi sylw i nifer o ddulliau ymarferol i'w hystyried ar wahanol gamau.

## CYNGOR DA: Sefydlu strwythurau clir (e.e. cyfarfodydd a fforymau), rolau ac atebolrwydd ar draws partneriaid o'r dechrau, gan sicrhau yr ymgynghorir â gweinyddiaethau datganoledig a'u cynnwys, fel bod dulliau yn effeithlon wrth gynrychioli gwahanol rannau o'r DU.

**Mae trefniadau llywodraethiant clir yn helpu i sicrhau darpariaeth effeithlon ac atebolrwydd ar draws pob sefydliad sy'n cymryd rhan.** Drwy ddiffinio pwy sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol a phwy sy'n rheoli darpariaeth weithredol, gall partneriaid weithio'n fwy effeithiol a datrys problemau ynghynt, yn arbennig mewn rhaglenni sy'n cwmpasu sectorau lluosog tebyg i gyflogaeth, iechyd a gwasanaethau lleol.

Sicrhawyd llywodraethiant strwythuredig yn y rhaglen Working Well drwy wahanol grwpiau strategol a gweithredol oedd yn cwrdd yn fisol:


- **Grŵp strategol:** Yn cynnwys cynrychiolwyr uwch o Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf (GMCA), yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), awdurdodau lleol a'r GIG. Roedd hyn yn dangos ffocws trawsbynciol y rhaglen ar gyflogaeth, iechyd a mynediad i wasanaethau lleol a sicrhau mewnbwn a throsolwg lefel uchel.
- **Grŵp gweithredol:** Yn cynnwys rheolwyr rhaglen, darparwyr ac arweinwyr partneriaid darparu, gan sicrhau cynrychiolaeth gan bob partner ar gyfer darparu cydlynus a datrys problemau.

Cefnogwyd y strwythur hwn gan Swyddfa Rhaglen Working Well (grŵp cydlynu GMCA), oedd yng ngofal darpariaeth, perfformiad a phartneriaethau ac yn rhoi trosolwg, cyfeiriad strategol, gwybodaeth rhaglen a datrys problemau.

## CYNGOR DA: Gosod cyfeiriad clir ond caniatau hyblygrwydd lleol.

**Mae darparu arweinyddiaeth strategol gryf yn sicrhau fod gan raglenni flaenoriaethau clir, ac mae galluogi hyblygrwydd ar lefel leol yn galluogi partneriaid darparu i ymateb i anghenion a ddaw i'r amlwg.**

Yn Working Well, rhoddodd yr Awdurdod Cyfunol arweinyddiaeth strategol glir a chysylltu canlyniadau'r rhaglen gyda blaenoriaethau lleol ehangach. Roedd darparwyr yn dal i fod â hyblygrwydd parhaus i addasu darpariaeth a chyflwyno rhaglenni wedi eu targedu i adlewychu anghenion lleol, a gefnogwyd gan werthuso ac adborth.



ies institute for employment studies

L&W SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH

Department for Work & Pensions



## CYNGOR DA: Defnyddio llywodraethiant i gryfhau gweithio partneriaeth dros gyfnod.

Mae cynlluniau gwaith ac iechyd yn aml yn dibynnu ar lawer o bartneriaid, yn cynnwys cyflogaeth, iechyd, sgiliau a mudiadau gwirfoddol a chymunedol.

**Dylai llywodraethiant ddod â'r partneriaid hyn ynghyd yn gyson i ddylunio prosiect hyd at ddarpariaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd, datrys problemau a gweithio partneriaeth cryfach.**

Mae'n bwysig nodi ei bod yn cymryd amser i adeiladu perthnasoedd a ffyrdd o weithio a gallant esblygu wrth i bartneriaethau ddatblygu.

Gwnaeth Greater Manchester Working Well hyn drwy grwpiau strategol a gweithredol, byrddau integreiddio a chyfarfodydd aml-asiantaeth. Fe wnaeth y fforymau adolygu cynnydd, dynodi heriau a chyd-ddylunio datrysiadau'n ymwneud ag iechyd a llesiant, sgiliau a chymwysterau, a pharodrwydd am waith.

## CYNGOR DA: Sicrhau fod modelau cyllid yn cefnogi hyblygrwydd a thargedau rhaglen.

**Mae defnyddio dulliau cyllid sy'n rhoi mwy o reolaeth, hyblygrwydd a sicrwydd tymor hirach yn helpu rhaglenni i addasu i anghenion defnyddwyr gwasanaeth a gwella dros gyfnod.** Mae mwy o hyblygrwydd yn galw am ffyrdd clir ond realistig i olrhain cynnydd, a allai gynnwys canlyniadau cyflogaeth penodol wedi eu contractio a chydnabyddiaeth o'r 'pellter a deithwyd'.

Roedd Greater Manchester Working Well yn cefnogi mwy o hyblygrwydd drwy osod eu targedau lleol eu hunain, gan ddefnyddio model profi a dysgu, a chaniatau addasiadau mewn dulliau mewn ymateb i newid.





## CYNGOR DA: Galluogi cyfathrebu clir a pharhaus rhwng lefelau strategol a gweithredol.

**Mae cyfathrebu clir, wedi ei ddiffinio'n glir a'i hwyluso rhwng lefelau strategol a gweithredol yn helpu i sicrhau y caiff penderfyniadau eu llywio gan gyflenwi ac ymarfer a heriau sy'n dod i'r amlwg.** Gall hefyd gefnogi gwell integreiddio ar bartneriaid a gwasanaethau ehangach.

Yn GMCA, fe wnaeth Local Leads helpu i gysylltu lefelau strategol a gweithredol Working Well a dileu rhwystrau i ddarpariaeth. Fe wnaethant gysylltu Working Well gyda gwasanaethau cymorth perthnasol, cefnogi integreiddio, trefnu perthasoedd ac uwchgyfeirio materion o fewn yr awdurdod lleol. Dros gyfnod, fe wnaeth lefel yr ymgysylltu gan Local Leads ostwng wrth i berthnasoedd a phrosesu ddatblygu mwyfwy a'r model darpariaeth yn ennill ei blwyf.

Mae'r cynghorion da yma eu seiliedig ar dystiolaeth gwerthuso a ddynodwyd drwy Asesiad Cyflym o Dystiolaeth ar yr hyn sy'n galluogi dylunio, darparu a gwerthuso rhaglenni gwaith ac iechyd lleol yn effeithlon.

Rhoddwyd graddiad hyder o dangosol – canolig i'r cynghorion da yn y canllawiau yma. Mae hyn yn golygu y seiliwyd y cynghorion da hyn ar dystiolaeth awgrymol ac na fedrir eu cysylltu'n uniongyrchol â chanlyniadau. Mae hefyd yn golygu y cafwyd tystiolaeth o leiaf un astudiaeth gyda graddiad canolig yn defnyddio dull Asesu Ansawdd Tystiolaeth Cronfa Gwaddol Ieuenctid.